social care institute for excellence

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Sgyrsiau Cenedlaethol: gyda'r sector Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru

## Cynnwys


Sgyrsiau Cenedlaethol gyda'r Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru ........ 3

**Cefndir y Sgyrsiau Cenedlaethol ........ 3**

**Crynodeb ........ 4**

**Cyflwyniad ........ 5**

**Amcanion ........ 6**

**Cwestiynau ffocws ........ 7**

**Lles a morâl ........ 7**

- Morâl ........ 9
- Pryderon ynghylch glanhau ........ 10
- Swigod a pherthynas gydag ysgolion ........ 11
- Rhoi'r rhaglen frechu ar waith ........ 12
- Cefnogaeth i blant a theuluoedd ........ 13
- Ffynonellau i gefnogi lles ........ 14

**Cymorth busnes ........ 15**

- Pecynnau cymorth ariannol ........ 15
- Cronfeydd gwariant ........ 18
- Cyflwr y busnesau ........ 18
- Gostyngiad yn nifer y plant ........ 19

**Hyfforddiant a chymwysterau ........ 20**

**Effaith ar staffio ........ 22**

**Gofynion yn y dyfodol ........ 24**

**Casgliad ........ 26**

**Argymhellion ........ 27**

**Atodiad A: Dadansoddiad dienw o'r cyfranogwyr ........ 28**

# Sgyrsiau Cenedlaethol gyda'r Sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru

## Cefndir y Sgyrsiau Cenedlaethol

Ar 18 Mawrth 2020, wrth ymateb i gyngor gwyddonol newydd, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ddatganiad ynghylch ysgolion yn gweithredu yng Nghymru a'r bwriad i ddwyn gwyliau'r Pasg ymlaen. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd datganiad ar y cyd gan y Gweinidog Addysg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 20 Mawrth 2020. Roedd yr ail ddatganiad hwn yn adlewyrchu'r cyngor y dylid gofalu am bob plentyn gartref lle bynnag y bo modd, a gofynnwyd i'r ysgolion a'r lleoliadau gofal plant aros ar agor i blant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed yn unig. O ganlyniad i hyn, penderfynodd rhai lleoliadau gofal plant gau dros dro.

Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cyngor a'r canllawiau, a oedd yn dweud bod lleoliadau gofal plant yn dal yn ddiogel, cyn belled â bod nifer y plant yn dal yn isel, a bod y cyngor iechyd cyhoeddus ehangach yn cael ei ddilyn. Yng ngoleuni'r datganiadau hynny, gweithiodd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i sicrhau bod rhieni a phlant a oedd yn parhau i gael gofal plant yn cael y cymorth angenrheidiol ac nad oedd rhieni a oedd yn staff rheng flaen yn wynebu rhwystrau wrth ymateb i Covid-19.

Ledled Cymru, roedd tua thraean o'r holl ysgolion yn dal ar agor i blant hŷn fynychu ar fodel hyb. Roedd nifer o warchodwyr plant yn gweithredu drwy dri mis cyntaf y pandemig, ond dim ond nifer fach o leoliadau gofal dydd oedd yn dal ar agor i gefnogi anghenion plant cyn oed ysgol y mae eu rhieni'n weithwyr allweddol neu'n blant sy'n agored i niwed[1].

Ar 19 Mehefin 2020, cadarnhaodd y Prif Weinidog y gallai lleoliadau gofal plant gynyddu'r hyn roeddent yn ei wneud o 22 Mehefin ymlaen, gan eu galluogi i dderbyn cohort ehangach o blant. Cyhoeddwyd canllawiau i gefnogi lleoliadau gofal plant yn eu paratoadau ar 10 Mehefin 2020.[2]

Yn dilyn cynnydd yn yr hyn roedd modd ei wneud a'r cyfyngiadau symud cenedlaethol dilynol, mae'r sector gofal plant wedi parhau i weithredu er bod rhai gwasanaethau'n dewis aros ar gau. Mae llu o ganllawiau a chymorth wedi cael eu cynnig i'r sector i helpu lleoliadau gofal plant a chwarae i weithredu yn ystod y pandemig.

Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddeall profiad go iawn darparwyr a gofalwyr yn y sector Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar yn ystod y pandemig. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, cynhaliodd Gofal Cymdeithasol Cymru ymchwil ansoddol ar ffurf nifer o Sgyrsiau Cenedlaethol, i helpu i ddeall profiad y sector o'r pandemig.

[1] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/is-adran-gofal-plant-chwarae-ar-blynyddoedd-cynnar-ymateb-i-covid-19-asesiad-effaith-integredig.pdf
[2] https://llyw.cymru/mesurau-diogelu-mewn-lleoliadau-gofal-plant-cadw-gofal-plant-yn-ddiogel?_ga=2.82270358.1812703309.1628001401-497457736.1601979533

## Crynodeb

Cynhaliwyd y Sgyrsiau rhwng diwedd mis Chwefror a diwedd mis Mawrth 2021 gyda detholiad o ddarparwyr, gofalwyr a'r sefydliadau ymbarél sy'n eu cefnogi. Roedd rhai o'r sefydliadau ymbarél wedi helpu i recriwtio cyfranogwyr i gymryd rhan ac wedi cynnal digwyddiadau lle gallai darparwyr gymryd rhan. Nid oedd y bobl a gymerodd ran yn y fforymau hyn o reidrwydd yn cynrychioli barn yr asiantaeth a oedd yn trefnu. Mae'r Sgyrsiau yn rhoi cipolwg o'r hyn roedd meithrinfeydd, darparwyr sesiynol, gwarchodwyr plant a gweithwyr chwarae, a oedd yn gallu cymryd rhan, yn ei brofi wrth weithio drwy bandemig bryd hynny. Mae Atodiad A yn dangos dadansoddiad o'r cyfranogwyr.

Rhannwyd y darganfyddiadau yn ôl y themâu canlynol:

1. Lles a Morâl

   Roedd yr adran hon yn canolbwyntio ar ddeall pa ddarpariaeth oedd ar gael i gefnogi lles a morâl staff yn ystod y pandemig. Y bwriad oedd canolbwyntio'n bennaf ar y staff, ond roedd llawer yn trafod effaith y pandemig ar les y plant maent yn eu cefnogi. Er bod cymorth ar gael drwy Lywodraeth Cymru, partneriaid CWLWM ac awdurdodau lleol, roedd teimlad cryf nad oeddent yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi'n ddigonol. Mynegwyd hyn yn arbennig yng nghyswllt peidio â chael eu hystyried yn weithwyr proffesiynol ochr yn ochr ag eraill, er enghraifft, staff addysgu.  Roedd teimlad hefyd nad oedd cyfathrebu bob amser yn glir neu nad oedd wedi cael ei glywed.

2. Cymorth busnes

   Roeddem yn awyddus i ddeall pa gymorth busnes roedd lleoliadau wedi cael gafael arno a'u barn am y broses. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini y cawsom sgyrsiau â nhw wedi cael rhyw fath o gymorth busnes, ac roeddent yn ddiolchgar am hynny. Roedd y lleoliadau yn teimlo bod y lefelau cymorth a oedd ar gael yn ddefnyddiol ac roeddent yn eu croesawu.  Ond, roedd profiadau o wneud cais am gymorth ariannol yn amrywio gyda rhai o'r farn bod y broses hon yn feichus.

3. Hyfforddiant a chymwysterau

   Mae nifer o faterion wedi codi o ran lleoliadau i ddysgwyr yn ystod y pandemig ac felly roedden ni'n awyddus i ddeall yr effaith mae hyn wedi'i chael ar hyfforddi a chwblhau cymwysterau.

   Er bod darparwyr dysgu wedi nodi problemau sylweddol gyda lleoliadau dysgwyr, dywedodd lleoliadau eu bod, ar y cyfan, wedi cael cyfleoedd dysgu a datblygu cadarnhaol yn ystod y pandemig.  Soniodd llawer o leoliadau a sefydliadau ymbarél am gynnydd yn y nifer a fanteisiodd ar hyfforddiant ar-lein.

4. Effaith ar staffio

Roedd pryder y gallai cau oherwydd y cyfyngiadau symud arwain at broblemau staffio yn y sector, felly fe wnaethom siarad â darparwyr am hyn. Disgrifiodd nifer o leoliadau broblemau gyda staffio a phryderon ynghylch cynaliadwyedd parhaus. Fodd bynnag, roedd y rhai a gymerodd ran yn canmol y cynllun ffyrlo a'r cymorth ariannol arall a oedd wedi cael ei gynnig i gynnal eu gwasanaethau.

5. Gofynion yn y dyfodol

   Roedd hi'n bwysig deall pa gymorth y gallai fod ei angen ar y sector wrth symud ymlaen. Felly, fe wnaethom ofyn i'r rhai a gymerodd ran sut roeddent yn gweld y 6-12 mis nesaf iddynt. Er bod y rhan fwyaf yn obeithiol ac yn gadarnhaol am y ffordd ymlaen, dywedodd llawer y byddent yn hoffi cael eu hystyried yn weithwyr proffesiynol yn yr un modd ag adrannau eraill o weithlu'r plant ee, addysg.

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio ymchwil a gynhaliwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2021.

Nod yr ymchwil oedd cynnal cyfres o Sgyrsiau Cenedlaethol gyda darparwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar ledled y wlad er mwyn deall yn well effaith cyfyngiadau Covid-19 dros y flwyddyn ddiwethaf a sut roeddent yn gweld dyfodol ac anghenion eu sector dros y 12 mis nesaf. Cafodd y Sgyrsiau eu recordio a'u trawsgrifio, a defnyddiwyd dadansoddiad thematig gyda meddalwedd MAXQDA i adnabod themâu sy'n codi dro ar ôl tro.

Cynhaliwyd un sgwrs ar bymtheg gyda 114 o bobl ledled Cymru a oedd yn cynrychioli:

| | |
|---|---|
| Darparwyr meithrinfa | 10 |
| Gwarchodwyr plant | 23 |
| Gofal plant y tu allan i oriau ysgol | 7 |
| Darpariaeth Mynediad Agored (gan gynnwys staff ALI) | 26 |
| Cylchoedd meithrin | 3 |
| Cylchoedd chwarae | 3 |
| Sefydliadau ymbarél | 42 |

Cawsom Sgyrsiau gydag unigolion a grwpiau o rhwng 2 ac 20 o bobl a chafodd pawb gyfle i siarad am eu profiadau. Cawsom sgyrsiau gyda'r canlynol:

- Darparwyr gofal plant ar ôl ysgol, clybiau brecwast a gofal plant cofleidiol, gan gynnwys clybiau gwyliau ysgol
- Gwarchodwyr plant
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC)
- Cylchoedd Meithrin
- Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Rheolwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Awdurdodau Lleol
- Mudiad Meithrin
- Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru (NDNA)
- Perchnogion a rheolwyr meithrinfeydd
- Gweithwyr meithrinfeydd
- Gweithwyr chwarae mynediad agored
- Chwarae Cymru
- Gweithwyr chwarae mynediad agored a staff datblygu chwarae
- Cylchoedd chwarae cyn-ysgol
- Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru)

Gan ein bod wedi defnyddio rhith lwyfannau fel Zoom neu Teams, roedden ni'n gallu dod â grwpiau at ei gilydd o bob cwr o Gymru. Roedd pawb a gymerodd ran yn cael cyfrannu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cynhaliwyd pob un o'r Sgyrsiau, ac eithrio dau, yn Saesneg.

Rydym yn ddiolchgar i'r cyfranwyr am roi o'u hamser ac am rannu eu profiadau gyda ni yn ystod y cyfnod anodd hwn. Gobeithio bod yr adroddiad hwn yn cynrychioli eu profiadau.

## Amcanion

Dyma amcanion y Sgyrsiau:

- Deall sut mae darparwyr yn ymdopi ag effaith y pandemig
- Deall effaith cyfyngiadau Covid-19 ar hyfforddiant a chymwysterau blynyddoedd cynnar
- Deall ble, sut a pha gyngor a chymorth busnes sydd ar gael
- Cyfrannu at bolisïau a chynllunio yn y sector ar ôl y pandemig.

## Cwestiynau ffocws

Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar 5 prif gwestiwn:

1. Sut ydych chi wedi cefnogi lles gweithwyr drwy gydol y pandemig?
2. Sut brofiad rydych chi wedi'i gael wrth geisio am gymorth busnes Covid-19?
3. Pa effaith mae cyfyngiadau Covid-19 wedi'i chael ar hyfforddiant a chymwysterau?
4. Pa effaith mae Covid-19 wedi'i chael o ran staffio?
5. Sut ydych chi'n gweld y 6 i 12 mis nesaf ar gyfer eich gwasanaeth?

Cyflwynir canfyddiadau'r cwestiynau hyn yn yr adroddiad dan y penawdau canlynol:

- Lles a morâl
- Cymorth busnes
- Hyfforddiant a chymwysterau
- Effaith ar staffio
- Gofynion yn y dyfodol

Nid oedd yr holl gwestiynau hyn yn berthnasol i bob sgwrs, er enghraifft nid oedd gan weithwyr awdurdodau lleol brofiad o gymorth busnes, ond ar y cyfan roedd y Sgyrsiau'n ymdrin â'r holl bynciau'n gynhwysfawr.

## Lles a morâl

Roedd y Sgyrsiau wedi'u hanelu at weld pa gefnogaeth oedd ar gael i les gweithwyr yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, er bod hyn yn amlwg yn y Sgyrsiau, cyfeiriodd nifer hefyd at les y plant maent yn gweithio gyda nhw fel mater o bwys/pryder iddynt.

"*Mae'r rhan fwyaf o'n staff yn tueddu i fod wedi poeni mwy am ein plant mwyaf agored i niwed" (Gweithiwr Chwarae Mynediad Agored)*

Yn fwy na dim, roedd gweithio gyda phlant yn ffynhonnell lles ynddo'i hun a daeth hyn i'r amlwg yn yr holl Sgyrsiau. Dyma weithlu sy'n llawn cymhelliant, ac roedd yn amlwg bod eu hymroddiad wedi bod yn ffactor pwysig i'w hysgogi. Roeddent wedi dweud eu bod yn mwynhau bod gyda phlant ac y byddent yn gweld eu heisiau pe byddai'n rhaid i'w gwasanaethau gau. Dywedodd un gwarchodwr plant y byddai wedi bod mor unig heb y plant roedd hi'n gofalu amdanynt a'u teuluoedd "*Achubiaeth i mi. Byw ar fy mhen fy hun. Mae fy mab yn byw i ffwrdd. Wedi ysgaru, felly rydw i'n dal i allu mynd i'r gwaith, pwysig iawn i mi".*

Nododd y Mudiad Meithrin fod pryder am swyddi ac roedd hyn yn effeithio'n fawr ar les staff. Maent wedi darparu sesiynau iechyd a lles ar-lein am ddim i aelodau. Roedd hyn yn digwydd mewn sefydliadau ymbarél eraill hefyd.

Bu rheolwyr yn helpu eu staff i sylweddoli pwysigrwydd eu gwaith. I raddau, roeddent yn cuddio eu teimladau eu hunain i gefnogi eu staff "*Rwyt ti'n mynd i banig, ond dwi'n meddwl fel tîm fydden ni ddim yn cuddio hynny oddi wrth y merched, ond yn ei droi'n rhywbeth cadarnhaol a dweud, 'Mae'n iawn oherwydd rydyn ni'n gwneud hyn'".* Dywedodd un arall, "*Mae 'na deimlad teuluol yn ein tîm, ac rydyn ni i gyd yn cefnogi ein gilydd".*

Dywedodd Blynyddoedd Cynnar Cymru sut roedd darparwyr, yn gynnar iawn, yn meddwl go iawn am les eu staff, ac roedd hyn yn eu helpu i ystyried pwy i'w roi ar ffyrlo. Roeddent yn ystyried y rhai hynny o blith eu staff roeddent yn gwybod eu bod yn agored i niwed, ac yn gwneud penderfyniadau rhesymegol ond dynol. Roedd lles staff yn rhan fawr o'r penderfyniadau hynny.

Er gwaethaf yr ymroddiad hwn, roedd rhai cyfranogwyr yn y Sgyrsiau hyn yn teimlo nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi'n swyddogol, yn enwedig o'u cymharu â'r sector addysg. Roedd y gweithwyr hyn yn teimlo weithiau nad oeddent yn cael eu diffinio fel gweithwyr allweddol eu hunain. Er nad yw hyn wedi bod yn wir o ran y canllawiau a gyhoeddwyd, roedd yr hyn roeddent wedi'i weld yn peri rhywfaint o bryder iddynt. Roedd un gweithiwr chwarae yn ategu'r sylwadau a glywyd yn yr holl Sgyrsiau eraill: *"Mae'r rhan fwyaf o'r negeseuon wedi bod yn cyfleu pa mor wych mae athrawon, cynorthwywyr addysgu ym myd addysg wedi'i wneud. Maen nhw'n teimlo bod pobl wedi eu cymryd yn ganiataol, oherwydd mewn gwirionedd, mae'r gweithwyr chwarae a'r gweithwyr gofal plant hynny sydd wedi gweithio drwy'r cyfan wedi gweithio wyneb yn wyneb llawer mwy na nifer fawr o'r proffesiwn addysg".*

Pwysleisiodd rheolwr un feithrinfa ei phroffesiynoldeb a phwysleisiodd y diffyg eglurder ynghylch rôl gofal plant: ai gofal cymdeithasol ynteu addysg ydyw? Roedd hi'n teimlo pe byddai hyn yn cael ei ddiffinio'n glir y byddai mwy o barch at ofal plant fel proffesiwn: *"Rydw i wedi treulio cymaint ar fy addysg i ag y mae athro wedi'i wneud ar ei addysg, ond rydw i ar yr un lefel, rydw i wedi cymhwyso ar Lefel 6, sydd yr un fath â staff addysgu".*

Dywedodd darparwr meithrinfa arall "*Mae'r sector addysg wedi cael canllawiau tebyg, ond mae'r sector hwnnw wedi llwyddo i gael cefnogaeth, i gael cydymdeimlad pobl a gofal cyffredinol o'i gymharu â'n sector ni. Nid yw hyn yn rhywbeth newydd, ond gan fod amynedd yn dechrau mynd yn brin, mae hyn yn sicr yn effeithio ar forâl y sector gofal plant".* Pa un a yw hyn yn adlewyrchiad o ddiddordeb y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol mewn ysgolion ac addysgu drwy'r pandemig neu'n awgrymu ar gam fod y sector yn cael ei esgeuluso gan y llywodraeth, serch hynny roedd yn thema yn y Sgyrsiau ac mae angen i hyn gael ei gydnabod.

Dywedodd un gwarchodwr plant yn huawdl "*y byddem yn hoffi cael ein gweld fel gweithwyr proffesiynol. Rydym ni'n bobl broffesiynol. Rydym ni'n gwneud gwaith proffesiynol. Rydym ni'n magu plant bach ifanc. Rydym ni'n eu dysgu i ddarllen. Rydym ni'n eu dysgu i ysgrifennu. Rydym ni'n eu dysgu i siarad, ymddwyn yn gwrtais. Mae'n ymwneud â'r holl sgiliau cymdeithasol, popeth",* a dywedodd perchennog un feithrinfa breifat "nid dim ond gwarchodwyr ydyn ni. *Yn bersonol, rydw i'n meddwl bod angen cael gwell llais ar gyfer gofal plant er mwyn tynnu sylw at bopeth rydym ni'n ei wneud, er mwyn tynnu sylw at y ffaith nad yw'n llwybr gyrfa hawdd."*

**Argymhelliad 1:** Hoffai'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant (EYCC) gael ei weld fel sector gweithwyr proffesiynol a bod yn gydradd â rhannau eraill o weithlu ehangach EYCC. Dylid ystyried parhau i hyrwyddo a chefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru[1] i ddatblygu gweithlu chwarae a gwaith chwarae medrus, sy'n cael ei barchu'n fawr fel proffesiwn ac yn cael ei gydnabod am y rôl hanfodol mae'r sector yn ei chwarae yn cefnogi datblygiad plant.

Ar ran gwarchodwyr plant, dywedodd cynrychiolydd o PACEY ei fod *"yn rhwystredig iawn pan nad oedd sôn am ofal plant yn ystod cyfarfodydd briffio gweinidogion. Byddai'r Gweinidog yn sôn, er enghraifft, am fynediad at brofion llif unffordd ar gyfer y rhai sy'n gweithio ym maes addysg a gofal plant, ac nid yw'r gair 'gofal plant' yn cael ei grybwyll; addysg ac ysgolion yw popeth. Wedyn, nid yw'r datganiad i'r wasg yn dweud hynny ond, wedi'i guddio yn y cefndir mae'r manylion, ac nid yw hynny'n gwneud dim byd i barch lleoliadau gofal plant. Rydych chi am i'r sector gofal plant gael yr un cydraddoldeb ag addysg yn y briff gweinidogol".*

Er bod Llywodraeth Cymru wedi anfon llythyrau diolch a chyhoeddiadau sy'n cynnwys y sector Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar, mae'n ymddangos nad yw'r negeseuon hyn wedi cael eu clywed ym mhob man. Fodd bynnag, roedd gan reolwr un feithrinfa farn eithaf cymysg am hyn: *"Rydw i'n meddwl bod y llywodraeth wedi gwella llawer erbyn hyn. I ddechrau, nid oedd gofal plant byth yn cael ei drafod. Roeddem yn teimlo bron mai ni oedd Cinderella byd addysg, ac rydw i'n meddwl ei fod wedi gwella. Rydw i'n meddwl bod gofal plant yn cael ei drafod ac mae gofal plant yn cael ei grybwyll erbyn hyn, ond rydw i hefyd yn meddwl yn bersonol ein bod ni o ryw fath, efallai fod cydbwysedd. Maen nhw fel petaen nhw am ein rhoi ni yn y categori addysg; rydym ni yn y categori gofal cymdeithasol, ond weithiau mae llawer o'r pethau ar gyfer gofal cymdeithasol na fedrwn ni eu cael, ond dydyn ni ddim yn gallu cael mynediad at y pethau maen nhw'n eu cael yn addysg.*

**Argymhelliad 2.** Rhanddeiliaid allweddol fel Llywodraeth Cymru, CWLWM, Gofal Cymdeithasol Cymru, Chwarae Cymru ac eraill i adeiladu ar y dulliau cyfathrebu presennol, gan gynnwys llythyrau a fideos diolch y Dirprwy Weinidog a'r ymgyrch #Diolch, i gydnabod ymhellach y cyfraniad y mae'r sector hwn wedi'i wneud i sicrhau bod cyfleoedd gofal plant a chwarae ar gael, gan gydnabod bod llawer o weithwyr wedi cynnig cymorth i deuluoedd a phlant y tu hwnt i gylch gwaith gofal plant bob dydd drwy gydol cyfnod a oedd yn llawn straen.

### Morâl

*"Rydym ni wedi crio. Rydym ni wedi chwerthin. Mae wedi bod yn flwyddyn galed."* (Gweithiwr Chwarae)

Roedd morâl yn amrywio ar draws y gwahanol leoliadau, gyda rhai'n ymddangos yn optimistaidd, ond roedd llawer yn teimlo'n isel, yn enwedig yn y cyfyngiadau symud mwy diweddar pan oedd gweithwyr yn teimlo bod tywydd gwael y gaeaf wedi ychwanegu at y cyfyngiadau roedden nhw'n eu profi fel gweithwyr, heb allu mynd allan gyda phlant cymaint ag yr oedden nhw'n dymuno a heb allu cwrdd â'u

cyfoedion i gael cymorth. Nid yw gweithio'n agos gyda phlant bach yn waith lle mae modd cadw pellter cymdeithasol, ac mae rhai'n poeni am ddod â'r haint yn ôl i'w teuluoedd eu hunain, yn enwedig gwarchodwyr plant sy'n gweithio gyda phlant yn eu cartrefi eu hunain.

Roedd morâl isel yn aml yn seiliedig ar ofn haint a phryderon ynghylch cael brechlynnau a chyfarpar diogelu personol. Roedd gwahaniaethau o ran y ffordd roedd lleoliadau'n gweld sut roedd cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddosbarthu. Roedd gan y rhan fwyaf ddigon, ond roedd rhai'n teimlo nad oeddent wedi eu cynnwys yn y dosbarthiad. Codwyd materion tebyg ynghylch dosbarthu'r Profion Llif Unffordd gydag un feithrinfa'n adrodd bod cannoedd o brofion wedi'u darparu iddynt tra bod un arall heb gael dim. Er bod canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru ar reoli heintiau ac ar bwy ddylai gael y flaenoriaeth o ran cyfarpar diogelu personol a rheoli heintiau, ar yr un pryd, roedd negeseuon cryf yn cael eu cyflwyno yn y cyfryngau ac mewn sesiynau briffio gan y llywodraeth a oedd yn pwysleisio peryglon heintio a risgiau trosglwyddo. Mae'n naturiol bod gwarchodwyr plant wedi mynegi ofnau a dryswch ynghylch cael eu heintio. Yn wahanol i unrhyw un arall yn y boblogaeth ehangach, roeddent yn croesawu plant i'w cartrefi eu hunain bob dydd drwy gydol y pandemig. Meddai un, "*Rydym ni wedi gweithio ac rydym ni wedi cael pobl yn dod i mewn ac allan o'n tŷ drwy'r amser, gan roi ein teuluoedd mewn perygl drwy'r amser, ond allwn ni ddim gweld ein teulu".* Mynegodd perchennog un feithrinfa bryderon tebyg "*Pan fyddwch chi'n gweithio gyda phlant, yn ceisio cefnogi pawb, ac rydych chi'n poeni yn meddwl, beth ydw i'n ei gario adref at fy nheulu fy hun?"*

### Pryderon ynghylch glanhau

Roedd y glanhau angenrheidiol i atal y feirws rhag lledaenu yn golygu gwaith ychwanegol i bob ymarferydd ac roedd hyn yn effeithio ar eu lles. Roeddent yn gweithio oriau hirach i wneud tasg nad oedd yn rhan o'u cylch gwaith arferol. Eglurodd perchennog un clwb gwyliau ysgol "*Roedd yn rhaid i mi gyflogi staff am fwy o oriau nag arfer oherwydd roedd yn rhaid i ni gael hanner awr o waith glanhau yn y bore, hanner awr o lanhau amser cinio, hanner awr yn y prynhawn dim ond i lanhau fel nad oedd ganddyn nhw unrhyw gyswllt â'r plant yn ystod yr adegau hynny".*

Clywsom gan berchennog un feithrinfa fod "*y glanhau'n anhygoel ar hyn o bryd".* Fel arfer, roedd y lleoliadau'n gwneud hyn eu hunain ac nid oeddent yn cyflogi glanhawyr. Fel y nododd perchennog un feithrinfa, nid yw athrawon yn yr ysgol yn gwneud eu gwaith glanhau eu hunain. Roedd hyn yn golygu oriau gwaith ychwanegol ac weithiau offer arbenigol fel peiriannau drud i greu anwedd. Mae llawer o ffynonellau cyngor ynghylch glanhau neu beth i'w ddefnyddio, rhai yn fwy dibynadwy ac eraill yn llai dibynadwy. Roedd pob un yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw arwynebau a theganau'n lân a defnyddio offer ar wahân ar gyfer pob plentyn. Gall cemegau glanhau gael effeithiau niweidiol: "*Pan rydym ni'n defnyddio'r hylifau glanhau fel y Milton a phethau fel hynny, mae'n gwynnu ein gwisgoedd, felly roeddem ni'n dechrau edrych yn flêr iawn".* Roedd un lleoliad wedi prynu peiriant creu anwedd ond wedi cael gwybod wedyn gan eu Hawdurdod Lleol nad oedd y rhain yn cael eu hystyried yn effeithiol, er gwaethaf astudiaeth achos gan NDNA

Cymru. Er bod Llywodraeth Cymru[3] wedi rhoi cyngor yn benodol, drwy'r canllawiau ar fesurau diogelu[4], nid yw hyn wedi cael ei ddeall yn llawn. Y cyngor swyddogol ar lanhau teganau, ystafelloedd a chyfarpar yw defnyddio glanedydd cyffredinol, dŵr sy'n boeth i'r dwylo a thyweli papur. Fodd bynnag, mae'r cyngor hwn ar dudalen 40 mewn dogfen 46 tudalen. Mae'n werth ailadrodd bod rhai lleoliadau wedi defnyddio diheintydd potel masnachol i ddiheintio teganau, offer a dillad tra bod eraill yn gwario llawer iawn ar beiriannau creu anwedd ar sail argymhelliad gan yr NDNA[5] er nad oes fawr o dystiolaeth i awgrymu bod y rhain yn effeithiol. Nid oedd y cyfarwyddyd am ddŵr poeth a glanedydd wedi cael ei glywed bob amser.

**Argymhelliad 3:** Mae angen i leoliadau gael cyngor hygyrch, cyson, hawdd ei ddeall sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar lanhau effeithiol, gan ddefnyddio deunyddiau sy'n ddiogel i blant, staff a'r amgylchedd. Dylai rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ystyried symleiddio ac ailadrodd cyfarwyddiadau pwysig yn awdurdodol er mwyn osgoi negeseuon hyrwyddo a chamwybodaeth sy'n tynnu sylw ar gyfryngau cymdeithasol.

### Swigod a pherthynas gydag ysgolion

Roedd swigod (neu fel y mae'r Mesurau Diogelu yn cyfeirio atynt, 'grwpiau cyswllt cyson') yn peri straen i lawer, yn enwedig y rheini a oedd fel arfer yn gweithio'n agos gydag ysgolion, gan ddarparu gwasanaeth ar dir yr ysgol efallai. Dywedodd un darparwr gofal plant cofleidiol preifat "*Mae'r swigod yn amhosib. Dwi'n gwybod pam eu bod yn bodoli, ond mae'n rhaid cydnabod bod yr angen yna yn mynd i ladd y sector. Bydd angen hynny ar rieni, ar ryw bwynt."*

Roedd cadw plant mewn swigod yn fater a effeithiodd ar foddhad yn y swydd: *"Roeddem yn teimlo bod yr holl ddyletswyddau a'r ymrwymiadau ychwanegol roedd yn rhaid i ni ei wneud i sicrhau bod pawb yn ddiogel rhag y coronafeirws yn cael gwared ar ychydig bach o hud y gweithiwr chwarae".*

Roedd yn rhaid i weithwyr chwarae addasu eu ffordd arferol o weithio, cadw at swigod, neu gysylltu â phlant dros Zoom, ac nid dyma'r ffordd roeddent yn arfer gweithio.

Mewn rhai achosion, roedd hi'n anodd cadw swigod, yn enwedig pan ofynnodd pennaeth un ysgol i'r plant gael eu cadw yn eu swigen dosbarth yn y clwb ar ôl ysgol. Roedd hyn yn gamddealltwriaeth ar ran yr ysgol honno ond mae'n un o'r ffyrdd y mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu grwpio plant mewn darpariaeth cofleidiol. Roedd y gofyniad hwn yn golygu bod yn rhaid i dri lleoliad gau oherwydd ei fod wedi arwain at gymarebau isel iawn o ran y plant a'r staff ac felly nid oedd yn gynaliadwy'n ariannol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru lacio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod y pandemig (tan 30 Mehefin 2021) i gefnogi

[3] https://phw.nhs.wales/services-and-teams/harp/infection-prevention-and-control/guidance/infection-prevention-and-control-guidelines-for-childcare-settings-v2-september-2019-welsh/

[4] https://gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2021/4/5/1619793195/protective-measures-childcare-settings-keep-childcare-safe.pdf

[5] https://www.ndna.org.uk/NDNA/Supplies/Fogging_decontamination_Coronavirus_Edge_Protect.aspx

lleoliadau i agor a chynnal gwasanaethau, ond roedd y ceisiadau unigol hyn gan ysgolion wedi achosi rhai problemau.

Er eu bod yr un fath, mae gwahaniaethau ymddangosiadol rhwng y canllawiau ar gyfer ysgolion a'r canllawiau ar gyfer y sector gofal plant ynghylch swigod, ac mae hyn wedi cael effaith andwyol ar y sector. Mae'n ddealladwy bod ysgolion eisiau cynnal yr un safonau y tu allan i'r ysgol er mwyn osgoi'r problemau a ddaw yn sgil ynysu, ond roedd y rhain yn anodd eu rhoi ar waith yng nghyd-destun gofal plant y tu allan i'r ysgol. *"Roedd gennym ysgol a roddodd set o ganllawiau i'w darparwr clwb preifat ar ôl ysgol. Os oedden nhw eisiau ailagor, byddai'n rhaid iddyn nhw ddilyn y canllawiau hyn. Un ohonynt oedd y byddai'n rhaid i'r plant iau eistedd o gwmpas byrddau am ddwy awr a byddai'n rhaid i'r plant hŷn eistedd ar feinciau am ddwy awr. Doedden nhw ddim yn cael rhedeg, doedden nhw ddim yn cael symud o gwmpas, roedd yn rhaid iddyn nhw eistedd am ddwy awr yn y clwb ar ôl ysgol. Felly dim ond un ysgol oedd hynny, a dyna beth oedden nhw ei eisiau gan glwb ar ôl ysgol. Felly, fe wnaethon nhw ddewis peidio ag agor oherwydd roedden nhw'n dweud nad dyna roedden nhw eisiau ei ddarparu, felly maen nhw wedi aros ar gau hyd yma" (Aelod o Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC).* Dyma enghraifft o un ysgol nad oedd yn gweithio yn unol â'r canllawiau ar swigod.

Mae buddiannau ysgolion a darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol yr un fath: mae'r ddau eisiau darparu gwasanaeth i blant gyda'r risg leiaf gan fod ynysu a chau cysylltiedig yn effeithio ar y ddau leoliad. Er gwaethaf negeseuon a sicrwydd gan Lywodraeth Cymru, nid oedd y cydweithrediad a oedd ei angen i wneud i hyn weithio bob amser i'w weld ar lawr gwlad.

**Argymhelliad 4:** Mae rhywfaint o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hylendid effeithiol, ysgolion sy'n gweithio'n ddiogel gyda darparwyr gofal plant, a'r ffordd y mae'r sector yn cael ei werthfawrogi, heb gael ei chlywed gan y darparwyr hyn ac eraill maent yn gweithio gyda nhw, ac mae hyn ar draul lles a hyfywedd ariannol. Mae angen i negeseuon fod yn fwy amlwg a mwy eglur er mwyn tawelu meddwl y sector. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod negeseuon yn glir.

## Rhoi'r rhaglen frechu ar waith

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau[6] ar bwy oedd yn gymwys fel staff gofal cymdeithasol rheng flaen i gael y brechlyn ynghyd â rhoi'r rhaglen frechu ar waith. Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr gofal plant.

*"Bydd staff sy'n ymgymryd â rolau gofal cymdeithasol mewn lleoliadau gofal plant ac addysg yn cael eu cynnwys yn niffiniad gofal cymdeithasol rheng flaen lle maent yn cefnogi plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag anghenion meddygol cymhleth, yn unol â'r diffiniad yn y canllawiau. Mae hyn yn berthnasol i bob lleoliad gofal plant ac addysg, yn y sector cyhoeddus a'r sector annibynnol."*

---

[6] https://llyw.cymru/diffinad-gweithiwr-gofal-cymdeithasol-rheng-flaen-brechu-covid-19?_ga=2.10247920.4595186.1628155824-497457736.1601979533

Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn dal i godi materion o ran dealltwriaeth a gwelwyd bod anghysonderau o ran darparu brechlynnau. Byddai'r holl weithwyr a gymerodd ran yn y Sgyrsiau wedi teimlo'n fwy hyderus gyda dos o'r brechlyn, ond roedd rhai wedi'i gael ac eraill heb ei gael. Er bod cynnydd rhagorol yn cael ei wneud gyda'r rhaglen frechu, roedd amrywiadau a chamddealltwriaeth o'r canllawiau a ddarparwyd yn gwneud i bobl deimlo bod y sefyllfa'n annheg. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y Sgyrsiau lle roedd grŵp cymysg o leoliadau wedi cymryd rhan.

Yn sgil y brechlynnau a'r gostyngiad diweddar mewn achosion a marwolaethau, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod rhan waethaf y pandemig wedi bod a'u bod yn teimlo ychydig bach yn fwy gobeithiol. Dywedodd un gwarchodwr plant wrthym "*Rwy'n meddwl fy mod yn teimlo'n eithaf cadarnhaol. Rydw i'n teimlo ein bod ni'n bendant dros y gwaethaf, yn fy marn i. Rydw i'n meddwl bod llawer o'r bobl rydw i'n siarad â nhw nawr yn teimlo'n fwy cadarnhaol am bopeth sy'n digwydd, ond mae'n bosib mai'r rheswm dros hyn yw bod yr haul allan mwy erbyn hyn. Rydw i'n meddwl bod pawb wedi mynd yn eithaf isel dros y gaeaf, a hithau'n rhy oer a gwlyb drwy'r amser, a doedd dim modd i chi fynd allan i unman beth bynnag. Rydw i'n meddwl bod pobl yn teimlo llawer mwy cadarnhaol erbyn hyn."*

## Cefnogaeth i blant a theuluoedd

Roedd yr holl weithwyr roedden ni wedi siarad â nhw yn canolbwyntio llawer ar gefnogi lles y plant roeddent yn gweithio gyda nhw a'u teuluoedd. Roedd hyn yn ffynhonnell gyson o anogaeth a phwrpas iddynt. Roedd gweithwyr chwarae yn sôn eu bod yn poeni am blant nad oeddent yn eu gweld mwyach mewn sesiynau chwarae ar-lein hyd yn oed. Roeddent wedi darparu llawer o becynnau crefft a pharseli bwyd i'w gollwng i blant agored i niwed yn eu hardaloedd; fe wnaethant greu fideos i fynd gyda'r rhain yn dangos gweithgareddau crefft a ryseitiau i'w dilyn. Fe ailwampiodd un lleoliad ei gynllun chwarae'r haf i gefnogi'r teulu cyfan yn hytrach na phlant yn unig. Roedd hyn yn helpu gyda chadw pellter cymdeithasol yn ogystal â chefnogi rhieni.

Cynhaliodd un feithrinfa sesiynau darllen ar-lein a fideos ioga i'r plant hynny gartref ac anfon planhigion atynt er mwyn iddynt eu tyfu gartref. Mewn un ardal, aeth y gweithwyr chwarae i weld plant yn eu strydoedd gan wisgo fel deinosoriaid. Canfu'r staff fod yr ymweliadau hyn wedi bod yn llesol iddynt *"Rwy'n meddwl bod y staff wedi cael yr un gymaint o hwb ag y cafodd y teuluoedd a'r plant. Roeddem yn ymddwyn yn hollol wirion, yn gwneud y Macarena yng nghanol y stryd".*

Dywedodd Mudiad Meithrin fod cylchoedd meithrin yn poeni fwyaf am barhau i ddarparu *"pryd gawn ni agor, pryd gawn ni groesawu'r plant yn ôl."* Roedd nifer o gylchoedd yn cynnig sesiwn Zoom i blant a theuluoedd ac yn postio syniadau ar Facebook.

Nododd Blynyddoedd Cynnar Cymru fod eu haelodau wedi dweud bod "*gweithwyr yn mynd y tu hwnt i'r hyn y byddent yn ei wneud fel arfer".*

Roedd un darparwr gwaith chwarae yn mynegi'n glir yr effaith y bydd colli cyfleoedd chwarae yn ei chael ar blant wrth iddynt dyfu. Iddyn nhw, bydd dal i fyny ar chwarae

yn bwysicach na dal i fyny â'r gwaith academaidd na chafodd ei wneud. Ar sail eu gwerthoedd, aethant ymlaen i ddweud "*fod cymaint o bryder am addysg ond maen nhw'n anghofio bod [plant] wedi colli allan ar eu hawl sylfaenol. Nid dim ond rhywbeth neis maen nhw wedi colli allan arno, maen nhw wedi colli eu hawl sylfaenol i chwarae, maen nhw wedi colli allan (ar fod yn blentyn?) a bod yn blentyn a chael yr holl atgofion o hwyl mae pob un ohonom yn eu cofio'n annwyl, atgofion sydd yn aml yn cael eu cymryd yn ganiataol am eu bod yn rhywbeth sydd wedi digwydd 20 mlynedd yn ôl. Iechyd meddwl, lles, hyder, addysg plant ond nid yng nghyd-destun addysg fel eistedd i lawr mewn ystafell ddosbarth, ond eu nodau eu hunain, eu diddordebau eu hunain, mae popeth wedi cael ei ddifetha. Os byddwch yn ailddechrau chwarae, bydd popeth yn disgyn i'w le. Os byddwch chi'n ailddechrau addysg ar draul chwarae, bydd y plant yn dal i gael yr holl effeithiau negyddol hynny, ac nid yw hynny'n cael ei gydnabod ar hyn o bryd."*

### Ffynonellau i gefnogi lles

Roedd gan yr holl gyfranogwyr yn ein Sgyrsiau cenedlaethol ffynonellau o gefnogaeth y gallent eu defnyddio, yn amrywio o grwpiau WhatsApp anffurfiol i'r sefydliadau roeddent yn aelodau ohonynt, a oedd yn gweithio'n galed i gysylltu â'u holl aelodau a'u cefnogi. Serch hynny, roedd ymdeimlad cryf yn y cyfarfodydd hyn fod y sector yn teimlo ei fod yn cael ei adael allan, yn enwedig o'i gymharu â'r sector addysg.

Mae gwarchodwyr plant yn gweithio fel unigolion o'u cartrefi eu hunain ac felly nid ydynt wedi cael cefnogaeth cyfeillion yn ystod cyfyngiadau Covid-19. Mae PACEY wedi bod yn gwneud "Galwadau Adfer" i'w holl warchodwyr plant ers mis Tachwedd, yn rhannol am eu bod yn cydnabod pa mor unig yw bod yn warchodwr plant ar adeg pan nad oes grwpiau plant bach na chyswllt cymdeithasol arall. *"Fel arfer, mae ryw fater llosg y mis maen nhw'n gorfod cael dweud amdano".* Roeddent hefyd wedi trefnu i'r gwarchodwyr plant ddilyn cwrs am ddim o'r enw I Matter Too. Roedd cyrff eraill fel yr NDNA wedi cadw mewn cysylltiad â'u haelodau ac wedi trefnu fforymau iddynt drafod materion. Roedd y lleoliadau a oedd yn gweithio'n uniongyrchol i awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi'n dda gan fod yr awdurdodau'n cysylltu â staff roeddent yn eu cyflogi'n uniongyrchol. Roedd rhai gweithwyr wedi dod o hyd i gymorth drwy gyrsiau ar-lein fel Cymraeg neu Ioga. Mae elfen gymdeithasol y pynciau hyn yn helpu i atal teimladau o unigrwydd. Roedd CPCKC hefyd yn cynnig galwadau rheolaidd mawr eu hangen i'w haelodau: *"rydych chi'n ffonio i gael sgwrs gyflym a, mwyaf sydyn, maen nhw'n dweud eu hanes wrthych chi; rwy'n meddwl eu bod wedi teimlo'n eithaf unig."*

**Argymhelliad 5:** Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i roi sicrwydd ac anogaeth barhaus i weithwyr gofal plant proffesiynol bod eu lles corfforol a meddyliol yn bwysig ac yn cael ei werthfawrogi. Edrych ar opsiynau i adeiladu ar y gwaith hwn, gan gydnabod yr hyn mae'r sector Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar wedi'i wneud i gefnogi lles plant a'u teuluoedd/gofalwyr.

## Cymorth busnes

### Pecynnau cymorth ariannol

Roedd y rhan fwyaf wedi gwneud cais am gymorth busnes, a'i gael, gan amrywiaeth o ffynonellau. Yn y rhan fwyaf o achosion, cymorth ariannol oedd hwn ar ffurf grantiau, benthyciadau, pecynnau cymorth y llywodraeth a thrwy'r cynllun ffyrlo. Cafodd y cymorth ariannol ei roi gan Gyllid a Thollau EM, banciau, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ac ymddiriedolaethau sy'n rhoi grantiau.

Dyma'r mathau o gymorth ariannol y soniwyd amdanynt:

- Benthyciadau Adfer
- Ad-dalu cyfraddau busnes
- Busnes Cymru
- Cynnig Gofal Plant Cymru, a barhaodd am gyfnod er na allai plant fynychu
- Grant Cefnogi Darparwyr Gofal Plant (CWTCH)
- Grant Cadernid Economaidd
- Cyllid Cyfalaf Dechrau'n Deg
- Cynllun Ffyrlo
- Cynllun Kick Start
- Moondance
- Cronfeydd Elusennol y GIG
- Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth (SEISS)
- Sefydliad Steve Morgan

Beth bynnag oedd ffynhonnell y cyllid, roedd y lleoliadau'n ddiolchgar, ac mewn rhai achosion roedd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Roedd gan eraill heriau o hyd. Yn y cyfrif diwethaf ym mis Rhagfyr 2020, canfu CPCKC fod 8% o'i aelodau wedi cau eu darpariaeth yn barhaol. Roedd ganddynt enghreifftiau o glybiau *"a oedd yn cael eu rheoli'n dda iawn gyda llawer o niferoedd sydd â chyfleoedd gwych i'r plant, hyd at 80 o blant y diwrnod yn ystod y gwyliau. Dydy'r ysgol ddim yn gadael iddyn nhw ddod i mewn, maen nhw wedi ceisio dal ati, ond maen nhw wedi cau, maen nhw wedi dod i ben".* Erbyn ein sgwrs ddiwedd mis Mawrth 2021, roeddent yn amau y byddai'r gyfran honno sydd wedi cau yn uwch, a bod ansicrwydd ynghylch lleoliadau a oedd wedi dibynnu ar ffyrlo a mathau eraill o gymorth, ond na fyddai'n gynaliadwy ar ôl i'r rhain ddiflannu. Ers y Nadolig, nid oedd 50% o'u haelodau wedi ailagor. Mae ffigurau gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Mai 2021 yn dangos bod colled o 3% yng ngwasanaeth cyffredinol y sector (1% o gapasiti cyffredinol), gyda 6% o wasanaethau'n dal ar gau dros dro. Mae CPCKC yn nodi bod *"Ein hystadegau gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn dangos o blith yr OSC a roddodd wybod iddynt eu bod wedi cau, roedd 28% ar gau o hyd. (Arhosodd 76 ar gau, ac ail-agorodd 200.*

*Mae hyn yn seiliedig ar gofrestriadau OSC yn unig, nid y darlun cyffredinol sy'n ystyried y Meithrinfeydd Dydd (3%) Gwarchodwyr Plant(15%), a Gofal Sesiynol(5%)."*

Roedd un darparwr gofal cofleidiol yn rhedeg busnes a oedd wedi mynd o sefyllfa lle roedd ganddi dros £230,000 o drosiant blynyddol i £20,000. Cafodd y perchennog hwnnw Fenthyciad Adfer gyda'r ad-daliadau i fod i ddechrau ym mis Mehefin. Nid oedd hi'n siŵr y byddai ei busnes ar agor bryd hynny, ac roedd hi'n poeni a fyddai'n gallu dechrau ad-dalu.

Roedd llawer o grantiau bach ar gael. Fel yr eglurodd un darparwr meithrinfa ddydd preifat*, "mae gwneud ceisiadau wedi bod yn swydd amser llawn i mi, gyda saith lleoliad, nid yw pob un yn gymwys, ond gyda saith lleoliad mewn tair bwrdeistref wahanol, mae gan bob un weithdrefnau gwahanol, ffurflenni gwahanol a phethau gwahanol roedden nhw eu heisiau. Rydw i wedi gwneud cais am unrhyw beth. Unrhyw beth rydw i wedi'i weld, felly roedd grantiau bach ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol, rydw i wedi gwneud cais am y rheini. Roedd grant bach ar gyfer datblygiad plant bach, rydw i wedi gwneud cais am hwnnw. Rydyn ni'n sôn am £50 yma, £500 fan draw, ac yna rydw i wedi cael cyllid cynaliadwyedd yn y tri lleoliad sydd ar agor, ond mae hwnnw ar gyfer pethau penodol bob amser, os ydych chi'n deall beth rydw i'n ei olygu?"*

Roedd bylchau yn y modd roedd grantiau yn diwallu anghenion. Dywedodd cynrychiolydd PACEY ei fod wedi lobïo Llywodraeth Cymru ynghylch hyn a'i fod yn teimlo bod yr ymateb yn rhesymol er, oherwydd cymhlethdod y sefyllfa, nid oedd modd ymdrin â'r holl anghenion ac roedd llawer o waith negodi gyda'r grantiau a oedd ar gael: *"Roedd Llywodraeth Cymru wedyn yn adweithiol iawn gan roi cynllun grant arall ar waith a oedd bron â llenwi'r bwlch hwnnw, ond roedd gan hwnnw ei feini prawf ei hun. Yna'r un a ddaeth ... fe ddaeth i lenwi bwlch, ond roedd dal bwlch arall nad oedd wedi'i gau. Yna, fe wnaethon nhw gyflwyno grant arall i lenwi'r bwlch hwnnw, felly yn y diwedd roedd tri grant ar gael ar yr un pryd, a chithau'n ceisio gweld pa un oedd y gorau i chi mewn gwirionedd."*

Roedd hi'n hawdd gwneud cais am rai mathau o gyllid. Fodd bynnag, fel y nododd Blynyddoedd Cynnar Cymru, *"mae ein darparwyr wedi sôn am brofiadau cymysg, mae rhai wedi gweld y broses yn syml, mae eraill wedi cael trafferthion mawr".* Dywedodd rheolwr un feithrinfa "*Fe benderfynais i weithio yn y maes i gefnogi plant, nid i fod yn gyfrifydd."* Roedd Mudiad Meithrin yn ategu'r teimladau hyn, gan nodi "*bod y cylchoedd wedi dibynnu'n fawr arnom ni i ddarparu cyngor a chefnogaeth iddyn nhw ar gymorth busnes a phethau fel ffyrlo."*

Ar gyfer yr unigolion a'r lleoliadau hynny a oedd yn hunangyflogedig, ond nid yn gwmni cyfyngedig, cafodd SEISS ei ddisgrifio fel "*achubiaeth gyda'r grantiau hunangyflogaeth. Roedd hwnnw'n wych. Roedd mor hawdd. Dim ôl-groniadau enfawr, gwaith papur. Roedd wedi'i drefnu'n dda iawn ac yn dderbyniol dros ben."*

Roedd cyngor yn helpu i sicrhau bod y broses gwneud ceisiadau am gyllid yn ddidrafferth. Nododd un Cylch Meithrin "*Mae'r pecynnau cymorth sydd wedi bod ar gael i ni wedi bod yn briodol a defnyddiol dros ben. Credaf fod y wybodaeth sydd wedi bod ar gael gan y Mudiad Meithrin wedi bod yn amserol ac yn gryno, ac mae*

*wedi ein galluogi i gael gafael ar wybodaeth yn brydlon ac ymateb ac addasu'n gyflym".* Rhoddwyd canmoliaeth i nifer o awdurdodau lleol am eu pecynnau cymorth hawdd eu deall. Nododd perchennog un feithrinfa fod NDNA wedi darparu cyngor defnyddiol i'r meithrinfeydd sy'n aelodau.

At ei gilydd, roedd PACEY yn teimlo "*ei bod yn gadarnhaol iawn bod rhywun wedi bod yn gwrando a bod ymateb wedi bod i'r sector sydd angen mwy o gymorth ariannol a'r amgylchiadau ar gyfer y cymorth hwnnw, boed hynny'n golygu gorfod cau dros y tymor byr neu'r effaith gyffredinol ar y busnes".* Nododd Blynyddoedd Cynnar Cymru fod cyllid CWTCH a Moondance yn dderbyniol dros ben ac wedi'i groesawu'n fawr.

Ar y llaw arall, roedd gan nifer o'r grantiau a oedd ar gael feini prawf cymhleth i'w bodloni, gan gynnwys cymalau eithrio, er enghraifft, os oedd lleoliad wedi gwneud hawliad yswiriant. Roedd dryswch ynghylch grantiau gan Lywodraeth Cymru, cwynodd perchennog un feithrinfa am "*y grantiau – roedd peth ansicrwydd yn eu cylch. Fe wnes i ei hawlio a chefais swm eithaf sylweddol o'r grant parhad busnes, ond wnaeth lleoliadau eraill ddim gwneud cais amdano oherwydd bod y geiriad yn reit – roedd yn teimlo rywsut fel na fyddai ganddynt hawl i'w gael. Fe wnaeth gryn dipyn o leoliadau benderfynu peidio â'i hawlio, ac yna pan ddywedon ni, 'Gwych, rydym ni wedi'i gael, brysiwch, hawliwch yr arian,' roedd yr arian wedi mynd. Maen nhw wedi gallu manteisio ar yr ail grant - dydw i ddim yn siŵr beth oedd enw hwnnw - felly maen nhw wedi llwyddo i gael rhywbeth ar yr ail lwyth o grantiau. Mae grantiau cynaliadwyedd yn ein hardal wedi bod yn eithaf da, ond mae llawer o waith papur gyda'r rheini, angen profi eich incwm, profi hyn, profi llall, ac yna gwneud yr holl waith hwnnw er mwyn ennill £1,000, dyweder. Mae £1,000 yn swnio'n llawer, ond pan mae gennych chi dwll o £40,000, dydy hynny'n ddim byd".*

Mae'r gwaith sydd ynghlwm wrth wneud cais a'r ansicrwydd ynghylch a ydych yn gymwys yn golygu nad yw rhai lleoliadau'n gwneud cais. Er enghraifft, beirniadwyd y Grant Cynaliadwyedd gan warchodwyr plant oherwydd roedd yn ymddangos bod yn rhaid iddynt ymrwymo i barhau i warchod plant am gyfnod parhaus. Roedd PACEY yn cefnogi eu haelodau ond yn dweud "*Rwy'n meddwl bod rhan o hynny'n ymwneud â phobl sy'n dal yn cael trafferth deall, ydy hyn ar gael iddyn nhw? A ddylen nhw fod yn gwneud cais amdano? Oes modd iddyn nhw wneud cais amdano os ydyn nhw wedi gwneud cais am y SEISS yn barod? Does dim gwahaniaeth faint o arweiniad rydyn ni'n ceisio ei roi iddyn nhw, does gennym ni ddim ateb pendant i bob unigolyn oherwydd mae popeth yn unigryw iawn, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau personol eu hunain mewn gwirionedd".* Cyfeiriodd PACEY hefyd at "*feini prawf yr awdurdod lleol, pan maen nhw wedi gofyn am bopeth bron yn dystiolaeth".*

Disgrifiodd un ymatebydd ei phroblem gyda grant awdurdod lleol "*Roedd y cyntaf yn iawn, ac roeddem wedi llwyddo i gael hwnnw, ond gyda'r ail un, yn eu telerau a'u hamodau, os oeddech chi wedi gwneud hawliad yn erbyn eich cwmni yswiriant, doeddech chi ddim yn gallu gwneud cais. Ond, pan gawsom ein cyfarfod rhwydwaith, cefais wybod gan dri lleoliad arall eu bod wedi cael eu cynghori gan eu swyddogion datblygu gofal plant i wneud cais a'u bod, ers hynny, wedi cael y grant. Ond ces i gyngor i beidio â gwneud cais a dydw i ddim wedi'i gael, felly rwy'n meddwl bod rhywfaint o broblemau cyfathrebu rhwng yr awdurdod a'r hyn y mae*

*swyddogion datblygu gofal plant gwahanol yn ei roi fel cyngor i bobl mewn gwirionedd. Mae'n annheg iawn, hynny yw, pan ges i wybod, fe wnes i gysylltu â'r awdurdod, a dyma nhw'n dweud, 'Na, rydych chi'n rhy hwyr!'"*

Nododd y Mudiad Meithrin "*nad oedd llawer o gylchoedd wedi llwyddo i gael llawer o grantiau ar y dechrau, felly roedd ffyrlo yn achubiaeth lwyr yn ogystal â'r cyllid cynnig 30 awr."*

Mewn grwpiau mwy, arweiniodd y drafodaeth am gymorth busnes at rannu awgrymiadau a chyngor am ffynonellau cymorth. Er enghraifft, roedd gwarchodwr plant newydd wedi cofrestru â Busnes Cymru i greu gwefan i hysbysebu ei gwasanaeth; nid oedd ganddi blant hyd at y pwynt hwnnw ond roedd yn gobeithio y byddai'r wefan yn fuddsoddiad da. Roedd nifer o rai eraill yn mynd i ymchwilio i'r gefnogaeth hon ar ôl y sgwrs.

### Cronfeydd gwariant

Mae rhywfaint o arian ar gael i ddelio â'r dirywiad mewn busnes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel y SEISS a'r cynllun ffyrlo. Roedd eraill yn gofyn am brawf o ddefnydd penodol. Roedd llawer o leoliadau wedi cael grantiau a oedd yn cael eu defnyddio i wella'r gofod yn yr awyr agored. Roedd ceginau mwd a gasebos yn eitemau cyffredin a brynwyd. Roedd offer glanhau yn wariant mawr arall, er nad oedd rhai wedi cael eu had-dalu am beiriannau creu anwedd a'r cemegau sy'n dod gyda nhw. Roedd un darparwr clwb ar ôl ysgol wedi gwario arian ar becynnau unigol o offer chwarae ar gyfer pob plentyn, ac roedd hyn yn gost nodweddiadol arall i leoliadau.

### Cyflwr y busnesau

Effeithiwyd ar fusnesau gan y cyfnodau clo byr a hir, cyfnodau o ynysu, biliau uwch, gostyngiad yn nifer y plant a oedd yn mynychu, dim archebion ymlaen llaw yn golygu nad oedd dim busnes dibynadwy ar gyfer y dyfodol, ac mewn rhai achosion penderfyniad i beidio â chynnal y gwasanaeth o gwbl, fel gyda chynllun chwarae haf un pentref.

Er gwaethaf yr amrywiaeth o gyllid, nid oedd modd talu llawer o gostau. Roedd y pwyslais ar awyr iach ac awyru yn straen ariannol i warchodwyr plant dros fisoedd y gaeaf, "*Dydy i ddim yn edrych ymlaen at ddiweddaru fy miliau trydan a nwy, oherwydd mae'n rhewi oer drwy'r amser. Mae'r plant yn gwisgo llwyth o haenau, ac rydw i mewn dillad thermol a chôt, y rhan fwyaf o ddiwrnodau, yn fy ystafell fyw, oherwydd mae'n rhewi".* Roedd y cyfranogwr hwnnw wedi defnyddio grant i brynu gwresogydd ffan, cost cyfalaf, ond nid oedd y grant yn talu am gostau rhedeg y peiriant.

Mewn rhai achosion, roedd y rheini a gymerodd ran yn nodi bod y cyfnodau clo wedi bod yn llawer hwy na'r disgwyl. "*Wel, roedden ni'n meddwl y bydden ni'n cael cyfnod o lanhau trylwyr; bydden ni'n cau dros y Pasg, a bydden ni'n ailagor ar ôl y Pasg. Fel ag yr oedd, fe gadwais mewn cysylltiad agos iawn â'r rhieni, a wnaethon ni ddim ailagor tan 7 Gorffennaf".* Roedd un darparwr gydag un lleoliad mewn ardal wledig yn colli £2000 yr wythnos yn ystod y cyfnod clo diweddaraf. Un gŵyn gyffredin oedd

amseru'r taliadau, megis y Cynnig Gofal Plant neu'r Gronfa Datblygiad Plant[7] a oedd yn arwain at broblemau llif arian difrifol, er bod cyflogau staff bob amser yn cael eu blaenoriaethu. Dywedodd aelod NDNA "*Mae rhai lleoliadau'n dweud eu bod yn gorfod defnyddio Benthyciadau Adfer; maen nhw'n gorfod defnyddio mathau eraill o incwm ar adeg sy'n anodd iawn yn barod am nad yw'r awdurdodau lleol yn anfon y taliadau hynny'n ddigon cyflym".* Rhoddodd yr enghraifft hon o *"leoliad lleol, un eithaf mawr, mae ganddyn nhw lawer o blant sy'n cael y Cynnig Gofal Plant – mae eu taliad yn £20,000 y mis, felly unwaith y bydd yn mynd heibio ail ddiwrnod cyflog, maen nhw mewn twll o £40,000 yn aros i'r arian hwnnw gyrraedd".*

### Gostyngiad yn nifer y plant

Un o'r prif resymau dros golli incwm a nodwyd yn y Sgyrsiau oedd gostyngiad yn nifer y plant a oedd yn mynychu. Roedd hyn yn effeithio ar bron pob darparwr a lleoliad y buom yn siarad â nhw. Amcangyfrifodd PACEY fod 62% o'u haelodau sy'n warchodwyr plant wedi gweld gostyngiad yn eu niferoedd. Roedd rhieni a oedd yn ddi-waith yn gofalu am eu plant eu hunain. Eglurodd un gwarchodwr plant "*Roedd gen i ddau berson trin gwallt. Un person trin gwallt ac un therapydd harddwch. Yn amlwg, maen nhw ar gau. Dwi'n meddwl fy mod wedi colli pedwar i gyd".* Yn Llandudno, roedd cylch chwarae cyn-ysgol wedi colli llawer o blant oherwydd nifer achosion y busnesau lletygarwch yn yr ardal. Cafodd y lleoliadau lletygarwch hynny eu cau, a chafodd staff eu diswyddo neu eu rhoi ar ffyrlo ac felly nid oedd angen iddynt gael eu trefniadau gofal plant arferol yn ystod y cyfnod hwnnw.

Roedd un feithrinfa wedi llwyddo i reoli'r gostyngiad yn y niferoedd yn fwriadol er mwyn caniatáu i staff weithio'n wahanol "*dim ond tua 10 neu 12 o blant oedd gennym bob dydd. Gallem fod wedi mynd yn uwch, ond roeddem am gadw'r niferoedd yn is er mwyn sicrhau y gallem aros yn ddiogel o ran COVID, a hefyd ein bod yn gweithio ar ffurf rota. Roedd y staff yn gweithio ar ffurf rota, ac roedd hyn yn ein galluogi ni (gan nad oedd darpariaeth ar gyfer ein plant ni bryd hynny), i gefnogi ein teuluoedd ein hunain a'n plant ein hunain a dal i chwarae rhan allweddol yn y pandemig".* I eraill, roedd colli llefydd yn fater mwy cymhleth *"O ran y plant iau, y plant cyn-oed ysgol, dwi wedi colli dyddiau, yn hytrach na phlant. Mae llawer o'r rhieni wedi lleihau'r dyddiau, oherwydd eu bod yn gweithio gartref, felly maen nhw'n dal i fod angen rhywfaint o ofal plant, ond ddim cymaint. Efallai y byddai gen i blant am bedwar neu bum diwrnod, ac erbyn hyn maen nhw gyda fi am ddau neu dri diwrnod, felly mae popeth wedi lleihau, ond oherwydd hynny, allwch chi ddim gwneud dim byd arall yn ei le, oherwydd maen nhw'n dal gyda chi am rywfaint o'r wythnos. Mewn rhai ffyrdd, roedd yn waeth. Rwy'n falch na wnes i golli unrhyw un ohonyn nhw, ond mewn ffyrdd eraill, roedd yn waeth colli pob un ohonyn nhw hanner yr amser, oherwydd doeddwn i ddim yn gallu llenwi'r llefydd yn iawn."* Roedd rhai lleoliadau wedi colli plant roedden nhw yn eu codi o'r ysgol. Roedd casglu plant o'r ysgol yn anymarferol oherwydd bod yr amseroedd gorffen yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau blwyddyn.

Stori gyffredin ar draws y sgyrsiau oedd nad oedd rhieni yn trefnu i'w plant ddod ar ôl y Pasg. Dywedodd darparwr un feithrinfa "*Does gen i ddim cymaint o blant wedi*

[7] https://llyw.cymru/gefnogi-teuluoedd-phlant-agored-i-niwed-yn-ystod-y-pandemig?_ga=2.37648608.1312543389.1628497446-497457736.1601979533

*cofrestru ar gyfer y cyfnod ar ôl y Pasg ag y byddai gen i fel arfer; dydw i ddim wedi cael cymaint o bobl yn holi am eu plentyn dwyflwydd oed i ddechrau. Rydw i'n llawn ar hyn o bryd ond, ar ôl y Pasg, bydd y plant hynny'n symud i fyny i'r ystafell fawr, ac fel arfer byddai'r llefydd hynny ar gael i'r plant newydd ar ôl y Pasg. Felly, ar hyn o bryd, does gen i ddim plant newydd ar ôl y Pasg: mae hynny'n peri pryder".* Roedd mam un gwarchodwr plant yn gweithio fel cynorthwyydd iddi ac roedd hi wedi rhoi ei mam ar ffyrlo "*fel arfer byddai gennym ni chwech o blant, mae gen i ddau neu dri o blant, felly mae fy mam ar ffyrlo ar hyn o bryd".*

Roedd rhai perchnogion yn besimistaidd ynghylch pa mor gynaliadwy oedd eu darpariaeth ac yn ofni y byddai'n rhaid iddynt gau. *"Rydw i newydd anfon e-bost, nawr, at un o'r clybiau, yn dweud, 'Mae'n annhebygol iawn y byddwn ni'n ôl, a does gen i ddim arian ar ôl i agor ac aros i weld.' Dydw i ddim yn meddwl bod pwynt i mi daflu llwch i'w llygaid a dweud, 'Efallai mis nesaf, mis nesaf efallai, mis nesaf efallai', oherwydd maen nhw'n poeni cymaint â fi am eu biliau".*

Gallai problem bosibl godi yn nes ymlaen yn 2021 ac yn 2022 pan fydd rhieni'n dechrau dychwelyd i'r gweithle ac yn gweld efallai na fydd yr ystod o ddarpariaeth gofal plant ar gael. Fodd bynnag, mae ffigurau presennol Arolygiaeth Gofal Cymru yn awgrymu, o'r lleoliadau sydd ar gau, bod y rhan fwyaf ar gau dros dro, felly gall y rhain ailagor wrth i'r cyfyngiadau godi a'r galw gynyddu.

Nododd y Mudiad Meithrin "*fod angen i ni fonitro a gweld sut mae patrymau gwaith rhieni yn newid o bosibl ac wrth i'r galw am ofal plant newid....mae rhai cylchoedd yn ailddechrau gwasanaethau arferol, mae rhai yn dweud nad oes ganddynt blant wedi'u cofrestru ar gyfer mis Medi."*

Mae gan deuluoedd wahanol anghenion gofal plant, yn amrywio o warchod plant ad hoc i ofal meithrin amser llawn; mae llawer hefyd yn defnyddio clybiau gwyliau ysgol a chynlluniau chwarae mynediad agored, tra bo plant oedran ysgol yn mynychu gofal cofleidiol megis grwpiau chwarae/cylch meithrin, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau brecwast. Mae'n ymddangos o'r sampl sy'n cymryd rhan yn y Sgyrsiau y gallai rhai darparwyr mawr ei chael hi'n anodd dychwelyd ar ôl y cyfyngiadau symud ac mae angen rhoi sylw brys i'r mater hwn.

## Hyfforddiant a chymwysterau

Dangosodd trafodaethau am hyfforddiant a chymwysterau yn ystod cyfyngiadau Covid-19 fod lleoliadau'n ymdopi'n dda iawn ac, mewn llawer o achosion, yn well nag o'r blaen. Ond, roedd trafodaethau gyda darparwyr hyfforddiant yn dangos bod problemau o ran cael gafael ar leoliadau i fyfyrwyr ar gyfer y rheini sy'n cwblhau cymwysterau lefel 2 a lefel 3 mewn darpariaeth AB. Mae bron pob hyfforddiant wedi mynd ar-lein ac roedd gweithwyr gofal plant prysur yn gwerthfawrogi hynny'n fawr iawn. Roeddent wedi manteisio ar y cyfle i sgwrsio am bob math o bynciau ar gyrsiau byw, YouTube, a gweminarau y tu allan i'w horiau gwaith, ac mae hyn yn dangos brwdfrydedd y gweithlu. Roeddent wir yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod nhw'n gallu mewngofnodi a bod dim rhaid iddynt deithio i unrhyw le i uwchraddio eu sgiliau neu ddysgu sgiliau newydd. Mae hyn er gwaethaf bod darparwyr addysg bellach yn

nodi anawsterau o ran cael gafael ar leoliadau i'w myfyrwyr. O'n Sgyrsiau sampl, roedd prentisiaethau'n parhau. Er, fe wnaeth Mudiad Meithrin nodi bod eu cynllun prentisiaeth wedi arafu oherwydd bod y cylchoedd wedi cau.

Roedd PACEY yn falch eu bod wedi digideiddio eu holl hyfforddiant ym mis Medi 2019, felly roedd popeth yn mynd rhagddo'n ddidrafferth pan ddaeth y pandemig. Nododd Blynyddoedd Cynnar Cymru hefyd symudiad tuag at hyfforddiant ar-lein am ddim, ac roedd yr aelodau'n croesawu hynny. Eglurodd un feithrinfa sut roedd cyrsiau ar-lein wir yn gweithio iddynt "*Mae popeth wedyn wedi symud ar-lein, sydd bron yn haws yn fy marn i, oherwydd mae'n gwneud yr hyfforddiant yn fwy hygyrch. Rydych chi'n mynd adref ar ddiwedd y dydd a gallwch drefnu te i'ch teulu, ac yna mewngofnodi ac eistedd i lawr a threulio ychydig oriau'n gwneud eich hyfforddiant ar-lein, neu gallwch wneud hynny yn ystod y dydd. Cyn belled â'n bod yn bodloni'r gymhareb gyda'r plant, gallant ddod i mewn a chael mynediad at rith gyrsiau. Dwi'n meddwl bod hyfforddiant yn yr ystyr hwnnw wedi bod yn haws oherwydd ei fod yn llawer mwy hygyrch. Rwy'n meddwl pan fyddwch chi'n gofyn i'r merched fynd allan ar ddiwedd y dydd, maen nhw wedi gweithio drwy'r dydd ac yna rydych chi'n gofyn iddyn nhw fynd allan yn y nos am ychydig o oriau, does dim cymaint o awydd i fynd ar y cyrsiau. Ond nawr, mae pawb wedi bod yn hapus i wneud hynny, a byddwn i'n dweud bod cymwysterau proffesiynol wedi cael eu gwneud hefyd".*

Soniodd y Mudiad Meithrin hefyd am gynnydd yn y rhai sy'n dilyn cyrsiau dysgu ar-lein gyda nhw. Roedd dros 2,000 o unigolion wedi cael hyfforddiant fel rhan o'r hyn roedden nhw'n ei gynnig ar-lein. Mae hyn yn uwch o lawer nag y byddent yn ei ddisgwyl wrth gynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb.

Yn ogystal â bod yn gyfleus i staff gael hyfforddiant yn y swydd, mae hefyd yn cael ei ganiatáu fel rhan o'r canllawiau i staff sydd ar ffyrlo er mwyn iddynt barhau i ddilyn hyfforddiant a dysgu. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r Sgyrsiau nad oedd yr holl gyfranogwyr yn gwybod hyn. Roedd un cyfrannwr yn credu, gan fod "*rhai ohonynt ar ffyrlo, ei bod yn anodd cadw mewn cysylltiad â nhw o ran – nid ydynt hyd yn oed i fod i ateb e-bost oherwydd byddai hynny'n gyfystyr â gweithio".* Ar sail canllawiau ffyrlo[8], mae hyn yn ffeithiol anghywir gan fod y canllawiau'n nodi:

"Yn ystod yr oriau rydych chi ar ffyrlo, gallwch wneud y canlynol:

- cymryd rhan mewn hyfforddiant
- gwirfoddoli i gyflogwr neu sefydliad arall neu weithio i gyflogwr arall, os caniateir hynny dan gontract"

Dyma enghraifft arall o sut nad oedd pob neges a chanllawiau a oedd yn cael eu darparu yn cyrraedd pen eu taith a/neu'n cael eu deall. Roedd cyfranogwr arall yn cydnabod "*bod dysgwyr Lefel 2 a 3, yn dal i allu cael hyfforddiant ar ffyrlo. Yna, fe allen ni anfon hyfforddiant iddyn nhw ar ffyrlo oherwydd dyna'r un peth roeddech chi'n cael ei wneud. Doeddech chi ddim yn cael gweithio, ond fe allech chi hyfforddi. Felly fe wnaethom anfon hyfforddiant at staff yn ystod y pandemig".* Roedd clwb ar ôl ysgol mewn ardal wledig wedi gwneud cais am y cynllun ffyrlo i ganiatáu i

[8] https://www.gov.uk/guidance/check-if-you-could-be-covered-by-the-coronavirus-job-retention-scheme#while-youre-on-furlough

hyfforddiant ar gyfer cymwysterau barhau: *"Mae dau ohonyn nhw ar brentisiaeth ar Lefel 2 a Lefel 3 ym maes Gwaith Chwarae, ac maen nhw wedi gallu parhau â hynny a chael eu rhoi ar ffyrlo, ond mae'n rhaid iddyn nhw gael eu talu am 10 awr yr wythnos, er mwyn iddyn nhw fod ar yr isafswm cyflog, felly roedd yn rhaid i mi ychwanegu ato. Roedd yn rhaid i mi dalu 100% iddyn nhw".* Er mwyn gwneud y taliad ychwanegol hwnnw, roedd wedi defnyddio grant gan ymddiriedolaeth.

Yn ogystal ag ymgymryd â chymwysterau ffurfiol a hyfforddiant statudol, megis cymorth cyntaf a diogelu, roedd llawer o bobl wedi manteisio ar y cyfle i ehangu eu gwybodaeth mewn sawl ffordd berthnasol. Er enghraifft, dywedodd un gwarchodwr plant newydd *"Rydw i wedi gwneud llawer o bethau ar-lein i gadw fy hun yn brysur ers i mi gofrestru! Rydw i wedi gwneud sesiynau Ymwybyddiaeth Awtistiaeth Uwch, Cyflwyniad i Iaith Arwyddion Prydain, Babi Egnïol a Chi. Ambell beth".*

O'r rheini a gymerodd ran, mae'n ymddangos bod cymwysterau proffesiynol yn mynd rhagddynt fel arfer. Roedd hi'n anoddach trefnu arsylwadau ymarferol ac efallai y bydd angen dal i fyny pan fydd y gofynion cadw pellter cymdeithasol yn codi, ond yn y cyfamser, ychydig iawn o oedi a gafwyd wrth ennill cymwysterau Lefel 2 neu 3, er bod darparwyr addysg bellach wedi sôn am rwystrau a heriau wrth gael lleoliadau ymarfer i fyfyrwyr. Nododd Blynyddoedd Cynnar Cymru hefyd yr heriau a wynebir gan sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch o ran cael lleoliadau a bylchau posibl mewn ymarfer. Roeddent wedi nodi bod gwaith wedi cael ei wneud i gefnogi hyn, fel y canllaw Cefnogi lleoliadau dysgwyr Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystod Covid-19,[9] ond nid oedd modd i chi orfodi lleoliadau i gymryd myfyrwyr. Roedd meithrinfeydd wedi parhau i gyflogi prentisiaid, ac roedd un wedi defnyddio'r Cynllun Kick Start newydd i hyfforddi person ifanc.

## Effaith ar staffio

Mae cyfyngiadau Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar staffio yn y sector blynyddoedd cynnar a'r sector gofal plant. Mae NDNA wedi gweithio gyda'r Sefydliad Polisi Addysg ar astudiaeth blwyddyn o hyd sy'n edrych ar sut mae'r coronafeirws wedi effeithio ar y sector blynyddoedd cynnar ar draws y 3 Gwlad. Mae'r astudiaeth wedi dod i ben erbyn hyn ac mae'r adroddiad terfynol wedi cael ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad terfynol[10] yn tynnu sylw at heriau recriwtio'r sector, gydag 81% yn ei chael yn anodd neu'n anodd iawn recriwtio pobl ar lefel 2 a 90% yn ei chael yn anodd neu'n anodd iawn recriwtio pobl ar lefel 3. Bydd effaith fawr ar recriwtio a staffio yn y dyfodol oherwydd ansicrwydd ynghylch pa staff fydd yn dychwelyd i'r sector ar ôl bod ar ffyrlo, ynghyd â rhai sydd wedi gadael ac eraill a fydd yn colli eu swyddi ar ôl i'r cynllun ffyrlo ddod i ben[11]. Dywedodd perchennog un gwasanaeth gofal cofleidiol,

---

[9] https://gofalcymdeithasol.cymru/gwella-gwasanaethau/cefnogi-lleoliadau-dysgwyr-yn-ystod-covid-19

[10] https://www.ndna.org.uk/NDNA/News/Reports_and_surveys/Coronavirus_impact_on_the_early_years_sector_ndna_epi_study.aspx

[11] Cafodd y cynllun ffyrlo ei ymestyn yn ystod y cyfnod y cynhaliwyd y Sgyrsiau, felly roedd hon yn elfen fwy ansicr ar y dechrau nag yn ddiweddarach.

*“Pe na bai ffyrlo wedi bod, byddwn ni’n diswyddo pobl, nawr, yr eiliad hon.”* Ategwyd hyn gan y Mudiad Meithrin a nododd hefyd fod y rhan fwyaf o’r cylchoedd wedi gallu cadw staff oherwydd ffyrlo. Er, dywedodd CPCKC mewn cyferbyniad, fod un lleoliad “*lle mae pawb bron wedi gadael i fynd i swydd fwy dibynadwy sy’n talu’n well mewn archfarchnadoedd a’r GIG”.*

Nododd Blynyddoedd Cynnar Cymru mai cylchoedd chwarae oedd y darparwyr olaf i ailagor. Roedd hyn yn bennaf oherwydd eu bod, yn aml iawn, mewn adeiladau cymunedol lle gallai fod blaenoriaethau eraill sy’n gwrthdaro ynghylch gwasanaethau sy’n cael eu cynnig neu eu defnyddio.

Hefyd, mae ansicrwydd ynghylch cyflogaeth yn fwy cyffredinol; os bydd llawer o swyddi’n cael eu colli yn y dyfodol, bydd y galw am ofal plant yn lleihau fwy fyth. I warchodwyr plant sy’n aml yn gweithio ar sail tymor byr, ad hoc weithiau i ofalu am blant, bydd hyn yn arwyddocaol. Dywedodd PACEY “*Maen nhw eisiau dal ati i warchod plant. Dydyn nhw ddim eisiau dod oddi ar y gofrestr, ac mae ganddyn nhw ddigon o waith ar hyn o bryd, ond maen nhw’n ymwybodol iawn y gallai hynny... Gallai hynny ddiflannu o fewn y dyddiau nesaf hyd yn oed”.*

Mae’r sector chwarae mynediad agored wedi buddsoddi mewn datblygu timau o weithwyr cymwys a phrofiadol, y gellid eu galw yn achlysurol yn ystod gwyliau’r ysgol. Roedd llawer o’r rheini hefyd wedi gweithio mewn diwydiannau sydd wedi cau dros y tymor hir, fel yn y celfyddydau. Mae’n debygol y byddant wedi dod o hyd i waith arall ac ni fyddant ar gael i’r sector chwarae mwyach fel o’r blaen. *“Mae cronfa gyfan o staff achlysurol sy’n weithwyr chwarae nad ydym wedi gallu eu defnyddio o gwbl ers 12 mis”.*

Mae problemau recriwtio yn bodoli gyda rhai lleoliadau ond yn cael ychydig iawn o geisiadau sy’n bodloni’r meini prawf gofynnol, ond eraill yn cael ymgeiswyr mwy addas. Arweiniodd hyn at bryderon y byddai cynnydd yn y galw ar ôl yr haf yn golygu gwrthod plant. Dywedodd darparwr un clwb ar ôl ysgol “*Allwn ni ddim cymryd mwy o blant os nad oes gennych chi’r staff – mae’n rhaid i chi gael y cymarebau penodol. Os cawn ni lawer sydd eisiau dod ym mis Medi ac nad oes gennym ni ddigon o staff cymwys i allu darparu ar gyfer y rheini, allwn ni ddim derbyn y plant, neu mi fyddai hynny’n golygu gostwng ein hansawdd. Mae hynny hefyd yn broblem, yn amlwg”.*

Mewn meithrinfeydd, roedd pryder “*nad oedd llawer o staff yn symud oherwydd bod pawb yn ofni colli eu swyddi. Ar y diwedd, efallai y bydd pobl yn ailfeddwl beth maen nhw eisiau ei wneud neu’n newid eu swydd. Rwy’n meddwl y bydd y chwech i 12 mis nesaf yn gyfnod ansefydlog”.*

Yn ddiddorol, nododd y Mudiad Meithrin y gwrthwyneb. Maent wedi sylwi mai ychydig iawn o symud sydd o fewn gweithlu’r cylchoedd meithrin, ond fe wnaethant sôn am heriau recriwtio, yn enwedig oherwydd y galw am siaradwyr Cymraeg.

Mae rhai’n teimlo bod canllawiau wedi newid yn aml ac weithiau’n eithaf sydyn. Credwyd bod gofynion cymarebau wedi’u llacio ar un adeg ond wedyn wedi’u gosod yn ôl, ac roedd hyn wedi effeithio ar y ffordd roedd lleoliadau’n defnyddio eu staff ar fyr rybudd. Efallai nad yw’r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu’r realiti ond, serch hynny, maent yn adlewyrchu teimladau o ddryswch a phryder yn y sector ynghylch

gwneud y peth iawn mewn cyfnod sydd llawn straen. Mae hyn wedi arwain at ansicrwydd sydd, ar adegau, yn effeithio ar sut mae pobl yn gweithio ac yn darparu gwasanaethau. Mynegwyd yn aml am yr ansicrwydd ac mae angen cymorth i osgoi camwybodaeth. Er enghraifft, dywedodd un Cylch Meithrin *“Rhan anoddaf y pandemig oedd gweithio gyda gofal cofleidiol, yn ceisio cynnal swigod bach a diwallu anghenion pob ysgol wahanol. Nid ydym wedi cael lefel o gydweithredu gyda llawer o’n hysgolion ac mae ceisio cynnal swigod bach pan fo gofyn i staff ddarparu’r gwasanaeth cofleidiol, wedi bod yn anodd ac yn gostus. Mae ein harferion wedi gorfod newid ac addasu’n aml yn ystod y flwyddyn ddiwethaf heb fawr o rybudd na chymorth ariannol. Gallaf ddweud yn onest ein bod wedi gorfod addasu ein cynllun gweithredol fwy eleni nag y bu’n rhaid i ni ei wneud erioed yn ystod yr un mlynedd ar ddeg o weithredu”*

**Argymhelliad 6:** Cydnabod yr heriau, y risgiau a’r ansicrwydd y mae’r sector yn eu hwynebu o ran staffio a chynaliadwyedd a gweithio i gynnig cefnogaeth gyson a chlir.

## Gofynion yn y dyfodol

Gofynnwyd i leoliadau beth allai helpu i’w cefnogi yn y 6 i 12 mis nesaf. Gan symud ymlaen, dywedodd y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant fod angen iddynt deimlo eu bod yn cael eu hystyried yn weithwyr proffesiynol yn yr un modd ag adrannau eraill o weithlu’r plant. Nododd Blynyddoedd Cynnar Cymru ei fod yn “*gobeithio y bydd y gwaith cyn y pandemig ar y cynllun gweithlu 10 mlynedd yn gallu parhau...byddem yn gobeithio bod y sector yn gwerthfawrogi ei hun yn fwy ar ôl y pandemig. Ledled Cymru, mae teimlad wedi bod nad oes cymaint o barch at ofal plant fel addysg.”*

Roedd hefyd yn amlwg o’r Sgyrsiau Cenedlaethol bod angen gwneud mwy i gyfathrebu’n glir â’r sector, gan fod llawer o gamddealltwriaeth wedi’i fynegi. Yn naturiol, roedd canllawiau’n newid yn aml ac roedd rhanddeiliaid yn ceisio datblygu negeseuon cyfathrebu yn ystod sefyllfa gymhleth iawn oedd yn digwydd yn gyflym.

Bydd Covid-19 a’r cyfyngiadau cysylltiedig yn cael effaith ddwys a pharhaol ar y sector hwn. Fel y dywedodd un o reolwyr sector blynyddoedd cynnar a gofal plant Awdurdodau Lleol, “*Mae angen bod yn ofalus iawn nad ydyn ni’n anghofio popeth am y pandemig, ac yn dweud, ‘Dyna beth ddigwyddodd bryd hynny, a dyma ni nawr’.”* Mae angen darparu cefnogaeth strategol ar gyfer y dyfodol.

Mae’r Sgyrsiau Cenedlaethol gyda darparwyr a gweithwyr y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae wedi dangos gweithlu ymroddedig a oedd yn rhoi anghenion plant a theuluoedd uwchlaw eu hanghenion eu hunain yn rheolaidd. Ond, fel y soniwyd uchod, roedd y ffordd roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gweld yn gwneud iddynt deimlo’n israddol i’r sector addysg. Roedd diffyg eglurder ynghylch a oeddent yn rhan o’r gweithlu gofal cymdeithasol neu’r gweithlu addysg. *“Rwy’n credu bod angen nodi’n glir yn gyffredinol ym mha le mae’r sector gofal plant yn perthyn? Ble mae’n ffitio orau? Pwy sydd yno i’n cefnogi?”* Fodd bynnag, nododd Blynyddoedd Cynnar Cymru, “*Pan gyflwynodd Julie Morgan [Dirprwy Weinidog Gwasanaethau*

*Cymdeithasol] y darn i'r camera, roedd yn bwerus iawn gan mai dim ond ar gyfer gweithwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Blynyddoedd Cynnar roedd hyn."*

Mae angen cymorth ar rai busnesau yn awr, yn enwedig y rheini sydd wedi bod yn ymwneud ag ysgolion fel gwaith chwarae neu ddarpariaeth ar ôl ysgol, y mae'r rhan fwyaf o feithrinfeydd yn ei gynnwys yn eu cynnig. Roedd un busnes mawr a gafodd ei gyfweld ar gyfer yr ymchwil hwn wedi dioddef colledion anghynaliadwy, gyda grantiau'n talu'r costau rhedeg o ddydd i ddydd yn unig. Os bydd y busnes hwn yn methu, bydd 29 lleoliad mewn 7 ardal yn cau a bydd rhieni heb ofal cofleidiol i'w plant wrth i ysgolion ddychwelyd ac wrth i'r gweithleoedd ailagor. Nid dyma'r unig fusnes mewn trafferth.

Mae'r rheini sy'n gweithio gydag ysgolion wedi wynebu risgiau nad oedd modd eu rheoli. Eglurodd y perchennog *"Felly, clwb brecwast, gwyliau, gofal cofleidiol, ar ôl ysgol, ar gyfer plant oed ysgol, sy'n cael eu rhedeg yn bennaf o ysgolion, a dyna pam mae fy sector i, plant oed ysgol, wedi cael ei daro'n galed iawn. Mae'r ysgolion ar gau. Mae fy model busnes cyfan wedi'i ddifetha."* Fel y dywedodd darparwr clwb gwyliau ysgol arall, "*Mae hynny'n iawn pan fo rhieni'n cael gwybod eu bod yn gallu gweithio gartref, ond dydy hynny ddim yn mynd i fod am byth. Mae'r siopau a'r bwytai'n mynd i agor, ac mae hyd yn oed swyddfeydd yn mynd i fod eisiau i'w pobl yn y swyddfa rywfaint o'r amser. Mae'n mynd i fod yn ddistaw pan nad oes ei angen, ond bydd cynnydd sydyn o ran bod angen llefydd gofal plant. Os ydyn nhw wedi cau, fyddan nhw ddim yno, oherwydd bydd angen ail-osod yn llwyr a bydd y staff i gyd wedi symud ymlaen i rolau eraill."*

Roedd angen i nifer o leoliadau gau dros dro, naill ai oherwydd diffyg staff neu lai o blant yn mynychu, neu oherwydd yr her o reoli cymarebau ar draws newidiadau yn y staff a nifer y plant. Yn achos un feithrinfa, nid oedd y gostyngiad yn nifer y plant yn gynaliadwy, felly caewyd y lleoliad yn barhaol. "*Cafwyd 10 o ddiswyddiadau ar draws y ddau leoliad a oedd gennym, oherwydd fe wnaethom golli llawer o ddarpariaeth a cholli ein lleoliad arall. Roedd hynny'n anffodus".*

Mae'n bur debyg bod llawer o achosion o gau i'w gweld y tu hwnt i'n sampl, ac mae modd eu hychwanegu at ostyngiad hanesyddol parhaus yn nifer y gwarchodwyr plant a grybwyllwyd gan PACEY: *"Mae yna ganran eithaf mawr sy'n ceisio dadgofrestru ac rydym ni'n gwybod y byddan nhw'n ychwanegu at y gostyngiad parhaus hwn. Mae hwn yn broblem wirioneddol rydym yn ei hwynebu. 26% o ostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant ers 2015. Gostyngiad o 15% yn ystod y tair blynedd diwethaf yn unig".* Soniodd PACEY hefyd fod cynnydd wedi bod yn y ddarpariaeth gofal dydd er nad yw'n glir bod hyn wedi digwydd yn ystod pandemig Covid-19. Mae'n ymddangos mai ar leoliadau sydd wedi bod yn gysylltiedig ag ysgolion mae'r effaith waethaf. Dylid ymchwilio ymhellach i'r rhan hon o'r sector rhag ofn y bydd risg o golli amrywiaeth a hyblygrwydd yn y sector gofal plant yn y dyfodol.

Mae angen i negeseuon am y ffordd y mae'r sector yn cael ei werthfawrogi, yn ogystal ag ymarferoldeb y swydd, fod yn glir, yn amlwg ac yn hygyrch. Roedd sawl achlysur lle nad oedd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn wedi clywed y negeseuon a oedd yn cael eu cyfleu gan Lywodraeth Cymru, ac roeddent yn teimlo'n ansicr o ganlyniad.

## Casgliad

Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn yn dangos bod cyfranogwyr wedi gweithio'n galed drwy gydol y pandemig i wneud yn siŵr bod y plant maent yn gweithio gyda nhw wedi cael y gofal a'r profiadau gorau er gwaethaf yr holl darfu a'r cyfyngiadau.

Canfu'r Sgyrsiau Cenedlaethol fod y sector yn awyddus i gael ei gydnabod fel proffesiwn a bod yn gydradd â staff addysg a gofal iechyd. Daeth hyn yn fwy amlwg yn ystod y pandemig wrth iddynt aros ar agor drwy gydol y cyfyngiadau ar gyfer plant gweithwyr allweddol a theuluoedd agored i niwed.

Mae angen i gyfathrebu swyddogol fod yn gliriach ac yn fwy cadarn. Canfu'r Sgyrsiau Cenedlaethol fod gweithwyr wedi camddeall ac wedi cael camwybodaeth am weithio drwy'r pandemig. Nid oeddent wedi clywed negeseuon pwysig, yn amrywio o sut maent yn cael eu gwerthfawrogi fel sector i sut dylent lanhau eu lleoliadau.

Mae sefyllfa'r sector Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn ansicr iawn ar hyn o bryd. Mae'n amhosibl dweud a fydd y galw am ofal plant yn cynyddu'n fuan, neu a fydd y cynnydd mewn diweithdra a pharhau i weithio gartref yn arwain at ostyngiad yn y galw. Mae'r ansicrwydd hwn, ynghyd â phwysau uniongyrchol y pandemig, wedi effeithio ar forâl, er gwaethaf y lefelau uchel o gymhelliant ac ymroddiad sydd gan y sector i'r plant maent yn gweithio gyda nhw.

O'r Sgyrsiau a gynhaliwyd gennym, mae cau ysgolion a'r cyfyngiadau a roddwyd gan ysgolion i atal y feirws rhag lledaenu, wedi effeithio ar leoliadau sy'n gysylltiedig ag ysgolion. Gallai colli cyfran sylweddol o glybiau fel rhai nad oes modd eu cynnal, gael effaith andwyol ar bortffolio'r gwasanaethau y mae rhieni wedi dibynnu arnynt i gefnogi eu bywyd gwaith a chynnig y ddarpariaeth chwarae orau i'w plant.

## Argymhellion

Mae prif gasgliadau'r Sgyrsiau Cenedlaethol yn cael eu hystyried yn yr Argymhellion isod. Sef:

**Argymhelliad 1:** Hoffai'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant (EYCC) gael ei weld fel sector gweithwyr proffesiynol a bod yn gydradd â rhannau eraill o weithlu ehangach EYCC. Dylid ystyried parhau i hyrwyddo a chefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru[1] i ddatblygu gweithlu chwarae a gwaith chwarae medrus, sy'n cael ei barchu'n fawr fel proffesiwn ac yn cael ei gydnabod am y rôl hanfodol mae'r sector yn ei chwarae yn cefnogi datblygiad plant.

**Argymhelliad 2:** Rhanddeiliaid allweddol fel Llywodraeth Cymru, CWLWM, Gofal Cymdeithasol Cymru, Chwarae Cymru ac eraill i adeiladu ar y dulliau cyfathrebu presennol, gan gynnwys llythyrau a fideos diolch y Dirprwy Weinidog a'r ymgyrch #Diolch, i gydnabod ymhellach y cyfraniad y mae'r sector hwn wedi'i wneud i sicrhau bod gwasanaethau gofal plant a chwarae yn dal ar gael, gan gydnabod bod llawer o weithwyr wedi cynnig cymorth i deuluoedd a phlant y tu hwnt i gylch gwaith gofal plant bob dydd drwy gydol cyfnod a oedd yn llawn straen.

**Argymhelliad 3:** Mae angen i leoliadau gael cyngor hygyrch, cyson, hawdd ei ddeall sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar lanhau effeithiol, gan ddefnyddio deunyddiau sy'n ddiogel i blant, staff a'r amgylchedd. Dylai rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ystyried symleiddio ac ailadrodd cyfarwyddiadau pwysig yn awdurdodol er mwyn osgoi negeseuon hyrwyddo a chamwybodaeth sy'n tynnu sylw ar gyfryngau cymdeithasol.

**Argymhelliad 4:** Mae rhywfaint o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hylendid effeithiol, ysgolion sy'n gweithio'n ddiogel gyda darparwyr gofal plant, a'r ffordd y mae'r sector yn cael ei werthfawrogi, heb gael ei chlywed gan y darparwyr hyn ac eraill maent yn gweithio gyda nhw, ac mae hynny ar draul lles a hyfywedd ariannol. Mae angen i negeseuon fod yn fwy amlwg a mwy eglur er mwyn tawelu meddwl y sector. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod negeseuon yn glir.

**Argymhelliad 5:** Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i roi sicrwydd ac anogaeth barhaus i weithwyr gofal plant proffesiynol bod eu lles corfforol a meddyliol yn bwysig ac yn cael ei werthfawrogi. Edrych ar opsiynau i adeiladu ar y gwaith hwn, gan gydnabod yr hyn mae'r sector Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar wedi'i wneud i gefnogi lles plant a'u teuluoedd/gofalwyr.

**Argymhelliad 6:** Cydnabod yr heriau, y risgiau a'r ansicrwydd y mae'r sector yn eu hwynebu o ran staffio a chynaliadwyedd a gweithio i gynnig cefnogaeth gyson a chlir.

## Atodiad A: Dadansoddiad dienw o'r cyfranogwyr

| Sefydliad | Sir | Math o ddarparwr | Nifer y cynrychiolwyr | Dyddiad y sgwrs |
|---|---|---|---|---|
| PACEY Cymru | Cymru gyfan | Sefydliad ymbarél i warchodwyr plant | 7 | 25/02/2021 |
| Rhwydwaith Gwarchodwyr Plant | Gogledd Cymru | Gwarchodwyr plant | 9 | 01/03/2021 |
| Cylch chwarae preifat | Conwy | Cylch chwarae | 1 | 01/03/2021 |
| Rhwydwaith Gwarchodwyr Plant | De Cymru | Gwarchodwyr plant | 13 | 03/03/2021 |
| Cylch Meithrin | De-orllewin Cymru | Cylch Meithrin | 1 | 18/02/2021 |
| Hwb rheolwyr blynyddoedd cynnar | Gwynedd, Sir y Fflint, Wrecsam, Powys | Meithrinfeydd Dydd, cylch, cylch chwarae, darpariaeth sesiynol Dechrau'n Deg ALl | 6 | 01/03/2021 |
| Darparwr annibynnol | Wrecsam | Darparwr ar ôl ysgol | 5 | |
| Darparwr annibynnol | Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Cwmbrân, Hwlffordd, Porthcawl, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg | Darparwr mawr o ofal ar ôl ysgol a gofal cofleidiol | 1 | 11/03/2021 |
| Rhwydwaith chwarae mynediad agored | Cymru gyfan | Chwarae Mynediad Agored | 26 | 16/03/2021 |
| NDNA Cymru | Cymru gyfan | Sefydliad ymbarél i ddarparwyr meithrinfa | 9 | 17/03/2021 |
| Meithrinfa breifat | Rhondda Cynon Taf | Gofal dydd | 2 | |
| Clwb yn ystod gwyliau'r ysgol | Pen-y-bont ar Ogwr | Chwarae yn ystod gwyliau ysgol 3 - 11 oed | 1 | 22/03/2021 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs | Cymru gyfan | Sefydliad ymbarél Gofal Plant a Rhwydwaith o weithwyr gofal cofleidiol | 26 | 26/03/2021 |
| Darparwr meithrinfa (safle ysbyty) | Caerdydd a'r Fro | Gofal dydd llawn | 1 | 24/03/2021 |
| Gwarchodwr plant | Llanilltud Fawr | Gwarchod plant | 1 | 24/03/2021 |
| Darparwyr meithrinfa | Conwy a Phen-y-bont ar Ogwr | Gofal dydd | 2 | 24/03/2021 |
| Blynyddoedd Cynnar Cymru | | | 2 | 27/05/2021 |
| Mudiad Meithrin | | | 1 | 02/06/2021 |
| Cyfanswm Cyfranogwyr | | | 114 | |
| | | | | |
| | | | | |
| Darparwyr meithrinfa | 10 | | | |
| Gwarchodwr plant | 23 | | | |
| OOSC | 7 | | | |
| Darpariaeth Mynediad Agored (gan gynnwys staff ALl) | 26 | | | |
| Cylch Meithrin | 3 | | | |
| Cylch chwarae | 3 | | | |
| Sefydliadau ymbarél | 42 | | | |
| CYFANSWM Cyfranogwyr | 114 | | | |